

Date/Dyddiad 24 Mawrth 2021  
Ask for/Gofynnwch am M Curtis  
Telephone/Rhif ffôn 01446 709828  
Fax/Ffacs  
e-mail/e-bost 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk  
Your Ref/Eich Cyf  
My Ref/Cyf 21C/CPP

The Vale of Glamorgan Council  
Learning and Skills  
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU  
Telephone: (01446) 700111  
www.valeofglamorgan.gov.uk



Cyngor Bro Morgannwg  
Dysgu a Sgiliau  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU  
Rhif ffôn: (01446) 700111  
www.bromorgannwg.gov.uk

At: Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen; Ymgynghoreion Penodedig

Annwyl Ymgynghorai,

### **Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd yn y Bont-faen o fis Medi 2022 trwy;**

- **Newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;**
- **Cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1,586 o leoedd i 1,796 o leoedd i wneud lle i 210 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg gyda 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol; a**
- **Chodi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.**

Fe ymgynghorodd y Cyngor ag ymgynghoreion penodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ynghylch y cynnig.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gydag ymgynghoreion penodedig rhwng 16 Mawrth 2020 a 23 Tachwedd 2020. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgynghoreion penodedig ynghylch y cynnig. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, cafwyd 251 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 23 Tachwedd 2020. O'r cyfanswm o 251 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 83 (33%) o blaid y cynnig, roedd 163 (65%) yn ei wrthwynebu, ac nid oedd 5 (2%) yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall. Ar 17 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Cyngor yr adroddiad ymgynghori a oedd yn darparu trosolwg o'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn nodi ymateb y Cyngor i unrhyw faterion a godwyd.

Ar 21 Rhagfyr 2020, yn dilyn ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig trwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 13 Ionawr 2021 ac fe'i cyflwynwyd i ymgynghoreion penodedig ac fe'i gosodwyd wrth brif fynedfeydd Ysgol Gyfun y Bont-faen. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu y dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion gael y cyfle i wneud hynny. I gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid i wrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy'r e-bost, a'u hanfon at y cynigydd cyn pen cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan bod yr hysbysiad statudol wedi cael ei gyhoeddi ar 13 Ionawr 2021, roedd rhaid i wrthwynebiadau statudol ddod i law erbyn 9 Chwefror 2021. Cafwyd 92 o wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.

### **Ar 22 Mawrth 2021, rhoddodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ystyriaeth i'r adroddiad**

**gwrthwynebu a'r holl ddogfennaeth berthnasol arall ac fe benderfynodd gymeradwyo'r cynnig. Mae'r adroddiad gwrthwynebu ar gael i'w weld a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor: [www.valeofglamorgan.gov.uk/cowbridgeprimaryprovision](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cowbridgeprimaryprovision)**

**Mae copïau caled o'r adroddiad gwrthwynebu ar gael ar gais trwy gysylltu ag aelod o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif ar: [21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk)**

Bydd y cynnig yn arwain at 210 o leoedd cynradd a 48 o leoedd meithrin rhan-amser cyfrwng Saesneg ychwanegol yn y Bont-faen. Bydd adeilad hunangynhwysol newydd yn cael ei godi ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin.

Wrth benderfynu ynghylch y cynnig, roedd y Cabinet wedi'i argyhoeddi y bydd y cynnig yn:

- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Saesneg yn ardal y Bont-faen.
- Galluogi'r ddarpariaeth 'ragorol' yn Ysgol Gyfun y Bont-faen i barhau gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy ar yr un pryd.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu mewn ymateb i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn perthynas â'r ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

### **Ansawdd a Safonau Addysg**

Fel a nodir yn yr ymateb a gafwyd gan Estyn, 'mae'n debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal safonau presennol addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal'. Yn yr arolygiad diweddaraf gan Estyn ym mis Ebrill 2019, barnwyd fod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn 'rhagorol' ym mhob un o'r pum maes arolygu. Fe grynodd Estyn fod 'arweinyddiaeth gref, sicr, cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus ac addysgu sy'n gyson yn effeithiol i addysgu ac ysbrydoli pobl ifanc wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau lefelau eithriadol o uchel o gyrhaeddiad a lles disgyblion yn Ysgol Gyfun y Bont-faen'.

Corff llywodraethu ac uwch dîm arwain Ysgol Gyfun y Bont-faen fydd yn gyfrifol am y cyfnod cynradd. Bydd angen i'r corff llywodraethu ddiweddarau ei amodau gorchwyl i adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod cynradd yn cael ei ychwanegu. Bydd angen i gyfansoddiad y corff llywodraethu adlewyrchu hyn hefyd gyda chynrychiolwyr o blith staff a rhieni ar gyfer y cyfnod cynradd. Y corff llywodraethu a'r pennaeth fydd yn gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio ar gyfer yr ysgol pob oed newydd i sicrhau sgiliau a phrofiad priodol. Bydd strwythur pwyllgorau'r corff llywodraethu'n cael ei adolygu hefyd i sicrhau bod digon o her a throsolwg mewn perthynas â'r cyfnod cynradd.

Mae uwch arweinwyr Ysgol Gyfun y Bont-faen wedi bod yn llwyr gefnogol i'r cynnig hwn ac mae'r Cyngor yn credu y byddai'r cynnig hwn yn sicrhau bod Ysgol Gyfun y Bont-faen yn gallu parhau i ddarparu ansawdd a safonau rhagorol mewn addysg gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion ac ystod oedran fwy.

Roedd yr ymateb gan ddisgyblion hefyd yn nodi cyfleoedd niferus i ddisgyblion iau a hŷn gael budd o'i gilydd.

Yn seiliedig ar brofiadau blaenorol, mae'r Cyngor o'r farn bod nifer o fanteision yn gysylltiedig â'r model ysgol pob oed, gan gynnwys:

- Gweledigaeth gyson a gwerthoedd cyffredin ar draws cyfnodau addysg.
- Cymuned ddysgu broffesiynol ar y cyd.
- Ymgysylltu cyson â rhieni ar draws y cyfnod cynradd ac uwchradd.
- Arbenigedd ar draws yr ystod oedran lawn.
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff mewn amgylchedd ysgol pob oed.
- Mwy o ffocws ar brosesau pontio allweddol yn enwedig rhwng Cyfnod Allweddol 2 a'r cyfnod uwchradd gan sicrhau yr adeiledir ar gynnydd o ran dysgu o un flwyddyn i'r llall gyda chyn lleied â phosibl o darfu wrth i'r plentyn symud drwy'r strwythur(au) dysgu.
- Un gyfundrefn atebolrwydd ac arolygu, gan gynnwys un Cynllun Datblygu Ysgol ac un Ymgynghorydd Her o'r Consortiwm.
- Un gyllideb ar draws yr ysgol, a fyddai'n symleiddio rheolaeth ariannol.
- Cyfle i gyflawni cost-effeithlonrwydd o ganlyniad i gydleoli ar un safle a rhesymoli contractau gwasanaethau cymorth megis cynnal a chadw tir yr ysgol.
- Cael gwared ar ddyblygu datganiadau data a data cyfrifiadau disgyblion.

### **Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Ateb y galw cynyddol am addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar ac arfaethedig yw'r prif ysgogiad ar gyfer y cynnig hwn.

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Bro Morgannwg 2011-2026 yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer Bro Morgannwg ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017. Mae nifer o ddatblygiadau tai yn y Bont-faen wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor 2011 – 2026. Y mwyaf o'r datblygiadau hyn yw'r 'Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Glos y Darren' gyda 475 o anheddau. Mae'r datblygiad hwn wedi cael caniatâd cynllunio ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y safle.

Capasiti cyfyngedig sydd yn yr ysgolion cynradd presennol sy'n gwasanaethu'r datblygiad. Ar 4 Tachwedd 2019, fe gymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddull graddol o ehangu'r ddarpariaeth gynradd yn y Bont-faen gyda'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn cael ei hehangu fel rhan o gam un a'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei hehangu fel rhan o gam dau. Nodwyd mai ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg oedd y flaenoriaeth oherwydd capasiti cyfyngedig a bod amcanestyniadau'n dynodi na fyddai'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon i ateb y galw yn y dyfodol.

Bu goralw'n flaenorol am leoedd yn Ysgol Gynradd y Bont-faen o blith ceisiadau o fewn y dalgylch. Ym mis Medi 2019, aeth yr ysgol y tu hwnt i'w nifer derbyn i wneud lle i 10 disgybl ychwanegol oedd yn byw yn y dalgylch.

Bydd y cynnig hwn yn arwain at 210 o leoedd cynradd ychwanegol a 48 o leoedd meithrin rhan-amser. Byddai'r capasiti ychwanegol yn cael ei gyflwyno'n raddol gyda 30 o leoedd derbyn a 48 o

leoedd meithrin rhan-amser ar gael o fis Medi 2022. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y capasiti'n cynyddu yn unol â'r galw.

Gan bod y galw uwch yn cael ei greu o fewn y dalgylch presennol o ganlyniad i ddatblygiadau tai cyfredol ac arfaethedig, byddai Ysgol Gynradd y Bont-faen a'r cyfnod cynradd arfaethedig yn yr ysgol 3-19 yn rhannu'r un dalgylch. Byddai hyn yn osgoi creu rhaniad diangen yng nghymuned y Bont-faen trwy rannu'r dref yn ddau ddalgylch ar wahân. Wrth ymgeisio am leoedd mewn ysgolion, gall rhieni/gofalwyr nodi mwy nag un dewis. Byddai'r rhai sy'n preswyllo yn y dalgylch yn gallu ymgeisio am le yn y ddwy ysgol i leihau i'r eithaf y siawns na ddyrennir lle iddynt. Caiff trefniadau derbyn a dalgylchoedd eu hadolygu gan y Cyngor yn flynyddol.

Ar y cyfan, bydd y cynnig yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o leoedd mewn ysgolion. Bydd y cynnig hefyd yn arwain at gyflenwad mwy effeithlon i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion yn y dalgylch, gan osgoi cludo disgyblion i ysgolion eraill ledled y Fro Orllewinol.

### **Darparu adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn fuddsoddiad strategol hirdymor. Bydd y cynnig yn golygu bod £5m yn cael ei fuddsoddi i sefydlu adeilad ysgol gynradd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i 210 o ddisgyblion cynradd a 48 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae'r gwariant hwn yn gyson â chynlluniau ar gyfer ysgolion cynradd eraill a gyflawnwyd fel rhan o'r rhaglen. Mae £400k ychwanegol ar gael hefyd i gefnogi targed y Cyngor i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adeilad yn cyflawni allyriadau carbon (gweithredol) sero net, gan ddilyn y dull a ddefnyddiwyd i ddylunio adeilad newydd Ysgol Gynradd Llancarfan, a fydd yr adeilad ysgol gynradd sero net cyntaf yng Nghymru pan gaiff ei gwblhau yn ddiweddarach eleni. Bydd yr adeilad hefyd yn cyrraedd safon Ragorol BREEAM ac yn cael y sgôr uchaf posibl, sef A, ar gyfer y Dystysgrif Perfformiad Ynni.

Bydd y gwaith i godi'r adeilad yn cael ei ariannu'n bennaf gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106 a geir i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau tai cyfagos.

Bydd yr ysgol pob oed 3-19 yn cael cyllideb ddirprwyedig ar gyfer y cyfnod cynradd o fis Medi 2022. Fel a nodir uchod, bydd y capasiti ychwanegol yn cael ei gyflwyno'n raddol gyda 30 o leoedd derbyn a 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar gael o fis Medi 2022. Bydd y costau sefydlog ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhedeg y cyfnod cynradd yn golygu lefel uwch o gyllid y disgybl yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn dod yn gytbwys wrth i nifer y disgyblion ar y gofrestr gynyddu dros y cyfnod pontio. Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol ac mae'n atal y cynnig rhag effeithio'n negyddol ar ysgolion cyfagos trwy nifer cynyddol o drosglwyddiadau. Trefnir yn rheolaidd bod cyllid refeniw pontio ychwanegol ar gael i gefnogi prosiectau trefniadaeth ysgolion.

Byddai un gyllideb yn cael ei dyrannu i'r ysgol pob oed gan ddefnyddio Fformiwla Cyllid Ysgolion y Cyngor. Amcangyfrifir mai £5.673M fydd cost refeniw gweithredu'r ysgol yn y flwyddyn gyntaf (heb gynnwys disgyblion ôl-16 a gyllidir â Grant gan Lywodraeth Cymru). Bydd hyn yn codi i £6.034M pan fydd yr ysgol wedi cyrraedd ei llawn dwf. Y gyllideb refeniw a ddirprwywyd i Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer 2020/21 yw £5.366M. Bydd y gost refeniw ychwanegol yn cael ei thalu o gyllideb ddirprwyedig ysgolion trwy'r fformiwla cyllido.

Corff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen fydd yn gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio ar gyfer yr ysgol pob oed, gan gynnwys datblygu rôl arweinydd y cyfnod cynradd. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn gyda staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.

Bydd y cynnig yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai

niferoedd ychwanegol y disgyblion ac ehangu'r ystod oedran yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Byddai angen i gorff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer niferoedd ychwanegol y disgyblion o fis Medi 2022.

## **Ffactorau cyffredinol eraill**

### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig oedran, anabledd ac ailbennu rhywedd/ hunaniaeth o ran rhywedd. Bydd y cynnig yn cynorthwyo'r ysgol i sicrhau bod ganddi'r cyfleusterau gwell i hybu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai â gwahanol nodweddion gwarchoddedig.

Ni chanfuwyd unrhyw effaith negyddol ganfyddedig ar y nodweddion gwarchoddedig. Bydd rhoi'r cynnig ar waith yn llwyddiannus yn ei gwneud yn bosibl cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), er enghraifft trwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch gyda chyfleusterau sy'n niwtral o ran rhywedd.

### **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 7 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 1 o'r 8 mesur a aseswyd.

Byddai'r cynnig yn galluogi Ysgol Gyfun y Bont-faen i barhau â'i llwyddiant gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy. Byddai'n darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu mewn ymateb i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial. Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ateb anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol. Cynigir fel lleiafswm y byddai'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer rhieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well i sicrhau'r cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.

Ar y cyfan, mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

**Yn ddiffuant,**



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau